**PEDWERYDD CYFARFOD CADEIRYDDION GRWPIAU PARTNERIAETH BIOAMRYWIAETH CYMRU - 5 HYDREF 2010, ADEILAD LLYWODRAETH CYNULLIAD CYMRU, ABERYSTWYTH - CAMAU GWEITHREDU**

| Rhif | Pwy/Cam gweithredu | Canlyniad | Pwy | Cynnydd |
|---|---|---|---|---|
| **Camau gweithredu a ddygwyd ymlaen o'r trydydd cyfarfod (27 Ebrill 2010)** | | | | |
| 1 | 3. Dylai Diana Reynolds ofyn i'r academyddion a fydd yn aelodau o'r Grwpiau Ecosystem a'r Grŵp Arbenigol ar Rywogaethau greu Grŵp Tystiolaeth Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru, a bydd Grŵp Llywio Gwybodaeth Amgylcheddol Cymru hefyd yn perthyn i'r grŵp. Gofynnir i un cynrychiolydd o'r grŵp fod yn aelod o Grŵp Tystiolaeth Llywodraeth y Cynulliad/yr Asiantaeth i sicrhau bod blaenoriaethau'n cael eu bwydo i mewn ar lefel y Llywodraeth. | Cytundeb ynghylch y gofynion o ran tystiolaeth a rhannu gwybodaeth o fewn Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru a rhwng Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru a'r llywodraeth. | DR/Alys Edwards (Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru) | Wedi'i gyflawni. Mae papur yn cael ei ddarparu i SG12. |
| **2** | **8. Dylai Julia Korn ystyried y gwahanol bosibiliadau o ran darparu gwasanaeth ysgrifenyddol i grwpiau ar lefel Cymru, gan gynnwys y posibilrwydd o ddefnyddio myfyrwyr ôl-ddoethurol a/neu wirfoddolwyr, a chysylltu â Swyddfa Caerdydd Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru. Mae angen gwasanaeth ysgrifenyddol ar gyfer y Grŵp Tir Fferm Amgaeëdig, y Grŵp Morol, y Grŵp Arbenigol ar Rywogaethau, y Grŵp Coetiroedd a Grŵp yr Ucheldir. Dylai Tracey Lovering ddilyn trywydd posibiliadau eraill y soniwyd amdanynt yn y trydydd cyfarfod.** | **Cymorth cyson a pharhaus i bob grŵp ar lefel Cymru.** | **TL** | **Wrthi'n cael ei gyflawni.** |
| 3 | 11. Dylai'r Grŵp Arbenigol ar Rywogaethau edrych ar y bylchau yn y ddarpariaeth o ran Partneriaid Arweiniol, a bydd angen i Stephen Bladwell adrodd yn ôl ynghylch y bylchau y mae angen eu llenwi o hyd.<br>Dylid anfon enwebiadau/awgrymiadau ar gyfer Grwpiau Ecosystem at Stephen Bladwell, e.e. nid oes gan Gymru Swyddog Infertebrata. | Y ddarpariaeth o ran Partneriaid Arweiniol ar gyfer Rhywogaethau yn gyflawn yng Nghymru. | SB<br><br>Pawb | Wedi'i gyflawni. |
| **4** | **13. Mae angen egluro dau ddiffiniad drwy'r Weinyddiaeth Amaeth, ac mae angen cymeradwyo'r Siarter erbyn mis Tachwedd. Mae'r drafft yn barod.** | **Cytundeb ynghylch egwyddorion y Siarter Rhannu Data wedi'i sicrhau ar raddfa eang yn Llywodraeth Cymru.** | **HW** | **Wedi'i gyflawni.** |
| 5 | 18. Dylai Julia Korn anfon at Diana Reynolds restr o holl staff y | Rhoddwyd gwybod i Lywodraeth | TL | Darparwyd drwy gwblhau cam |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | Comisiwn Coedwigaeth ac Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru sy’n perthyn i grwpiau ar lefel Cymru. Dylai Tracey Lovering ddilyn trywydd y cam gweithredu hwn. | Cynulliad Cymru am aelodaeth y Comisiwn Coedwigaeth ac Asiantaeth yr Amgylchedd ar grwpiau ar lefel Cymru. | | gweithredu 6. |
| **6** | **19. Dylai Tracey Lovering ddiweddaru’r gronfa ddata ynghylch aelodaeth ym mis Hydref.** | **Ceir gwybodaeth gyffredin am aelodaeth y grwpiau.** | **TL** | **Wedi’i gyflawni.** |
| 7 | 24. **Dylai Diana Reynolds wirio llythyrau cylch gorchwyl Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru a’r Cyngor Cefn Gwlad i weld a oes cyfeiriad ynddynt at Bartneriaeth Bioamrywiaeth Cymru a gwaith cyflawni’r Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth yng Nghymru.** | Ceir mwy o arweiniad llywodraethol ar gyfer sefydliadau allweddol er mwyn cyfeirio adnoddau, gan gynnwys amser staff, at waith cefnogi’r dull gweithredu newydd. | DR | Nid yw’r Comisiwn Coedwigaeth yn cael llythyr cylch gorchwyl; roedd cyfeiriad yn llythyr y Cyngor Cefn Gwlad a llythyr Asiantaeth yr Amgylchedd, a bydd cyfeiriad ynddynt unwaith eto. Mae ffrydiau gwaith a Fframwaith yr Amgylchedd Naturiol ar waith bellach. Mae holl waith Llywodraeth Cynulliad Cymru yn cael ei gynnwys yn Fframwaith yr Amgylchedd Naturiol, a cheir ffocws priodol ar natur. |
| **8** | **26. Dylai Peter Jones a Stephen Bladwell redeg cynllun peilot ar ffeniau, gan edrych ar sut y caiff anghenion o ran rhywogaethau eu hintegreiddio mewn gwaith rheoli cynefinoedd, a sut y gellid monitro cynnydd ac adrodd yn ei gylch.** | **Cafodd dull y gwaith integreiddio rhywogaethau ei dreialu a’i ddatblygu i weithio ar draws y Grwpiau Ecosystem.** | **SB a PJ** | **Dyddiad y gweithdy cyntaf mewn cyfres o weithdai yw 18 Mawrth 2011. Bydd y gweithdy cyntaf yn cynnwys cynefinoedd Ucheldir, Gweundir a Choetir. Cafwyd ymateb da gan gyfranogwyr oedd â diddordeb. Bydd angen cadarnhau dyddiadau gweithdai dilynol.** |
| 9 | 27. Dylai Jan Sherry weld a fyddai Gavin Measures o Natural England yn fodlon dod i siarad â chyfarfod nesaf y Cadeiryddion am waith Natural England ar integreiddio rhywogaethau. | Caiff defnydd effeithlon ei wneud o wybodaeth sy’n bodoli eisoes wrth ddatblygu gwaith integreiddio yng | JS | Gohiriwyd y cam gweithredu hwn. |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | Nghymru. | | |
| **10** | **32. Dylai Julia Korn gysylltu â'r grwpiau'n unigol os oes angen o hyd cael cyswllt ar gyfer adrodd yn ôl. Dylai Tracey Lovering ddilyn trywydd y cam gweithredu hwn.** | | **TL** | **Dylid cynnwys y cam gweithredu hwn dan Unrhyw Fater Arall yn y cyfarfod nesaf.** |
| **Camau gweithredu o'r pedwerydd cyfarfod (5 Hydref 2010)** | | | | |
| 11 | Mae Amgylchedd Cymru yn rhyddhau arian ar gyfer prosiectau Grwpiau Ecosystem (£2-4,000/prosiect). Rhoddir blaenoriaeth i'r grwpiau na chafodd gymorth ar gyfer prosiect y tro diwethaf. Mae'r Grŵp Morol yn flaenoriaeth. Y newyddion diweddaraf yw bod y Cyngor Cefn Gwlad wedi cytuno i roi arian sy'n cyfateb i arian Llywodraeth Cynulliad Cymru, felly mae cyfanswm o £140,000 ar gael yn awr. Dylai Diana ddarparu gwybodaeth i Gadeiryddion y Grwpiau Ecosystem. | Galluogwyd y grwpiau i weithredu neu gefnogi prosiectau blaenoriaethol. | DR | Wedi'i gyflawni. |
| **12** | **Dylid gofyn am gynrychiolaeth o Ddŵr Cymru ar y Grŵp Ecosystem Dŵr Croyw (Dusi).** | **Mae aelodaeth y Grŵp Ecosystem Dŵr Croyw yn cynrychioli buddiannau o ran dŵr croyw.** | **TH-E** | **Wrthi'n cael ei gyflawni. Mae Dusi yn dilyn trywydd y cam gweithredu hwn.** |
| 13 | Dylai DR gynnal trafodaeth ag Oliver ynghylch cydnawsedd y System Gwybodaeth Ddaearyddol â'r System Adrodd ar Weithredu Bioamrywiaeth. | Mae gan y System Adrodd ar Weithredu Bioamrywiaeth ryngwyneb effeithiol o ran y System Gwybodaeth Ddaearyddol. | DR | Wedi'i gyflawni. |
| **14** | **Diwygio camau gweithredu – dylid gwirio gyda Sean beth yw'r broses bresennol a pha mor ymarferol ydyw i Gadeiryddion gael caniatâd i ddiwygio camau gweithredu yn uniongyrchol.** | **Caiff diwygiadau i gamau gweithredu ar y System Adrodd ar Weithredu Bioamrywiaeth eu gwneud yn effeithlon ac yn gyflym.** | **TL** | **Wrthi'n cael ei gyflawni.** |
| 15 | 'Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth ar gyfer Cwmni' - sut mae gwneud hynny? Sut y gall swyddogion y System Adrodd ar Weithredu Bioamrywiaeth ym mhob Grŵp wneud hynny? – Angen gwirio gydag Alys. | | TL | **Wedi'i gyflawni** – Rydym yn aros i'r System Adrodd ar Weithredu Bioamrywiaeth gael ei hailstrwythuro. |
| **16** | **Rhestr o'r camau gweithredu sydd ar y System Adrodd ar Weithredu Bioamrywiaeth, pa gamau sy'n digwydd ar hyn o bryd, a pha rai sydd ar ôl. Dylid rhoi gwybod i DR erbyn diwedd y flwyddyn.** | **Mae camau gweithredu yn parhau i gael eu bwydo i mewn i'r System Adrodd ar Weithredu Bioamrywiaeth er mwyn cael sylwadau a gweithredu.** | **TL** | **Wedi'i gyflawni.** |
| 17 | Bydd Diana yn anfon Organogram Llywodraeth Cynulliad | Mae'r Cadeiryddion yn ymwybodol o | DR | Wedi'i gyflawni. |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | Cymru i bob aelod o staff sydd ar ei lefel hi neu'n uwch na hynny. Dylid dechrau rhoi unigolion sy'n gweithio yn Llywodraeth Cynulliad Cymru ac yn y Grŵp Arbenigol ar Rywogaethau/Grwpiau Ecosystem mewn parau/grwpiau. | bwy y gallant siarad â hwy yn Llywodraeth Cynulliad Cymru i symud gwaith pob grŵp yn ei flaen. | | |
| **18** | **Dylai Cadeiryddion y grwpiau roi cyflwyniadau yn seminarau staff y Cyngor Cefn Gwlad a chyrff anllywodraethol.** | **Rhoddir gwybod yn effeithiol i gynulleidfa ehangach yn y Cyngor Cefn Gwlad ac mewn cyrff anllywodraethol am bwrpas a chynnydd Grŵp Arbenigol ar Rywogaethau a phob Grŵp Ecosystem Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru. Mae'r staff yn teimlo eu bod yn cael eu cynnwys yn y broses a'u bod yn cyfrannu at y grwpiau.** | **Cadeiryddion y grwpiau** | **Wrthi'n cael ei gyflawni.** |
| 19 | Dylai Cadeiryddion y grwpiau gytuno ar 3 neges allweddol ym mhob cyfarfod er mwyn i Swyddogion Cynlluniau Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol ac aelodau eraill adrodd yn ôl wrth eu sefydliadau/grwpiau perthnasol. | Caiff cynnydd Grŵp Arbenigol ar Rywogaethau a phob Grŵp Ecosystem Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru ei gyfathrebu'n effeithiol. | Cadeiryddion y grwpiau | Wedi'i gyflawni. |
| **20** | **Dylai Diana ddarparu crynodeb o anghenion Cadeiryddion y Grwpiau, o safbwynt trafodaethau'n ymwneud â Dysgu Gweithredol.** | **Caiff Cadeiryddion y grwpiau eu cefnogi yn eu rolau, gallant roi cefnogaeth effeithiol i'w grwpiau, ac maent yn dilyn amcanion y grŵp yn effeithiol.** | **DR** | **Wedi'i gyflawni.** |
| 21 | Dylai Diana ailanfon cylch gorchwyl aelodau Grŵp Arbenigol ar Rywogaethau a Grwpiau Ecosystem Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru at y Cadeiryddion. Dylai pawb gynnig sylwadau. Yng ngoleuni Cymru Fyw, a oes angen inni ddiwygio'r geiriad? Os anfonwyd sylwadau eisoes, gwiriwch a ydynt wedi eu cynnwys yn y cylch gorchwyl - os nad ydynt, ailanfonwch y sylwadau at Diana. | Cynrychiolaeth effeithiol ym mhob Grŵp. | Diana-Wedi'i gyflawni<br><br>Pawb | Wedi'i gyflawni. |
| **22a** | **Dylai'r grwpiau atgoffa eu haelodau o gylch gorchwyl y Grŵp ac o gyfrifoldebau'r aelodau. Dylid trafod ag aelodau absennol a allant ymrwymo i fynychu/cyfrannu? Efallai y dylid enwebu pobl eraill, os oes angen.** | **Cynrychiolaeth effeithiol ym mhob Grŵp.** | **Cadeiryddion y grwpiau** | **Wrthi'n cael ei gyflawni.** |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| 22b | Dylai Tracey barhau â gwaith cychwynnol Julia ar y camau gweithredu a gaiff eu cyflawni gyda grant. | Rhoddir blaenoriaeth i brosiectau sy'n cael cymorth grant ac sy'n darparu enillion o safbwynt bioamrywiaeth. | TL | Wrthi'n cael ei gyflawni (JK). |
| **23** | **Dylai Diana gadarnhau bod 'ffrwd waith y Bartneriaeth' yn ymwybodol o'r hyn y mae'r Cadeiryddion yn gweithio tuag ato.** | **Mae ffrwd waith partneriaeth Cymru Fyw yn ymwybodol o amcanion Cadeiryddion y grwpiau.** | **DR** | **Wedi'i gyflawni.** |
| 24 | Dylai Diana a Stephen ddarparu sesiwn flasu ar gyfer y grŵp Dysgu Gweithredol i Gadeiryddion. | Bydd y Cadeiryddion yn elwa o brofiad o 'Ddysgu Gweithredol'. | DR | Gohiriwyd y cam gweithredu hwn oherwydd nad yw SB yn gallu dod i'r pumed cyfarfod. |
| **25** | **Cadarnhau dyddiad cyfarfod Grŵp Llywio Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru ym mis Chwefror.** | | **TL** | **Wedi'i gyflawni.** |
| 26 | Casglu syniadau ar gyfer taith maes, e.e. i weld y gwaith y mae Grŵp Ecosystem wedi'i noddi. | Bydd Cadeiryddion y Grwpiau yn gallu adrodd yn ôl i grwpiau a phobl eraill ynghylch effeithiolrwydd prosiectau a'r gwersi a ddysgwyd. | TL | Wrthi'n cael ei gyflawni. |
| **27** | **Ceir anghysondebau yn yr adroddiad ar gyflwr yr amgylchedd, o safbwynt cynnydd grwpiau. Ni theimlir bod y dangosyddion a ddefnyddir yn briodol bob amser. Dylai Diana drosglwyddo sylwadau Barbara.** | **Dylai adroddiadau a gaiff eu cyhoeddi adlewyrchu gwaith a chynnydd grwpiau'n gywir, a dylent gynnwys dangosyddion cynnydd priodol.** | **DR** | **Wedi'i gyflawni.** |
| 28 | Dylai Tracey ofyn i Helen a allem gynnal ein cyfarfod nesaf yn Llanerchaeron. | Bydd lleoliad y cyfarfod yn adlewyrchu anghenion Cadeiryddion y Grwpiau. | TL | Wrthi'n cael ei gyflawni. |
| **29** | **Dyddiad y cyfarfod nesaf: 19 Ionawr 2011.** | | **Pawb** | **Wedi'i gyflawni.** |

**Ein 3 Neges Allweddol**

1. **Astudiaethau achos ar gyfer ymgynghoriad Cymru Fyw. Gofynnir i bawb annog aelodau'r grwpiau, ac eraill, i anfon enghreifftiau o astudiaethau achos at Fiona Evans/Diana Reynolds.**
2. **Cynadleddau: Cynhadledd Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth y DU 23-24 Tachwedd, Stirling; Cynhadledd Biofonitro 'Strategies for understanding and responding to long-term trends in UK biodiversity' 16-17 Tachwedd, Llundain**
3. **Dolenni cyswllt â phapurau ymgynghori Cymru Fyw. Trosglwyddwch negeseuon allweddol Fframwaith yr Amgylchedd Naturiol i bawb, ac anogwch unigolion i gymryd rhan weithredol yn y broses ymgynghori a chyfrannu at ffrydiau gwaith.**

http://wales.gov.uk/consultations/environmentandcountryside/eshlivingwalescons/?skip=1&lang=cy Dyddiad cau ar gyfer ymatebion i broses ymgynghori Fframwaith yr Amgylchedd Naturiol: 31 Rhagfyr 2010

**a dolen gyswllt ag Adroddiad Lawton** http://www.defra.gov.uk/environment/biodiversity/documents/201009space-for-nature.pdf